SMART Waste

Prosiect LIFE+ yr UE am 2014-2019 (LIFE13 ENV-UK-000549)

# Cynnydd y prosiect



**24 Gorffennaf 2017**

Paratowyd y cyhoeddiad hwn gyda chyfraniad offeryn
ariannol LIFE yr Undeb Ewropeaidd

SEPA Scottish Environment Protection Agency

bruxelles environnement leefmilieu brussel .brussels

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

ACR+



# Rheoleiddio gwastraff yn fwy clyfar yn Ewrop

Prosiect dros bum mlynedd yw LIFE SMART Waste (LIFE13 ENV-UK-000549). Dechreuodd ym mis Mehefin 2014. Bwriad y prosiect yw dangos ffyrdd gwreiddiol y gallwn ddeall troseddau sy'n ymwneud â gwastraff, eu taclo, a'u lleihau.

Mae troseddau gwastraff yn dal yn broblem ddifrifol. Mae troseddwyr gwastraff yn anodd i'w dal, ac maent yn elwa'n gyson ar draul ein hamgylchedd, ein heconomi a'n cymunedau yn Ewrop, a thu hwnt. Rydym yn cydnabod mwyfwy bod troseddau gwastraff yn fygythiad mawr i'n gobaith am economi cylchol.

Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban [SEPA] a gychwynnodd y prosiect LIFE SMART Waste, a hynny i gydnabod bod bylchau sylweddol yn yr hyn a wyddom, yn gyffredinol, am achos a deinameg y tor-cyfraith heriol mewn ffrydiau gwastraff. Drwy gau'r bylchau hyn, mae cyfle i weld, a datblygu, ffyrdd ymarferol o ddangos, atal a lleihau troseddau yn hyn o beth.

Mae LIFE SMART Waste wrthi'n ymchwilio i lenwi'r bylchau allweddol yn ein dealltwriaeth, a chynhyrchu gwybodaeth am droseddau gwastraff. Mae Buddiolwyr y Prosiect yn gweithio'n agos gyda gwahanol sefydliadau partner a chyflenwyr i gynllunio a datblygu dulliau a thechnegau gwreiddiol i gasglu gwybodaeth, ac ymyraethau sy'n defnyddio deallusrwydd i roi sylw i droseddau gwastraff.

Yn y cyhoeddiad hwn, mae crynodeb cynhwysfawr o'r cynnydd sydd wedi'i wneud, hanner ffordd drwy'r prosiect.

## Buddiolwyr y Prosiect

SEPA Scottish Environment Protection Agency
Buidheann Dìon Àrainneachd na h-Alba

ACR+

bruxelles environnement
leefmilieu brussel
.brussels

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



## Hwb Cyfathrebu

Bu LIFE SMART Waste wrthi'n datblygu llwyfan ar lein er mwyn i asiantaethau gorfodi allu cydweithio mewn rhith amgylchedd diogel, sy'n chwalu'r terfynau a'r ffiniau traddodiadol. Ym mis Mehefin 2016, lansiwyd peilot ar gyfer yr 'Hwb' cyfathrebu, gyda chymorth amrywiol randdeiliaid allanol.

Lansiwyd yr Hwb wedi cyfnod hir o ddylunio, caffael a chael defnyddwyr i brofi derbynioldeb y dewis o lwyfan IBM. Yn ystod y broses hon, bu'n rhaid datrys gwahanol sialensiau technegol a gododd gyda'r llwyfan.

Wrth gyflwyno a dangos y llwyfan i'w ddarpar ddefnyddwyr ar y dechrau, cafwyd cryn dipyn o sylwadau calonogol a diddordeb mewn ymestyn y cydweithio rhyngwladol gan ddefnyddio'r Hwb. Yn cymryd rhan ar hyn o bryd, mae cynrychiolwyr o blith: Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC); NIEA, Asiantaeth Amgylchedd Lloegr, Gweithgor Troseddau Llygredd INTERPOL; Buddiolwyr Cysylltiedig; Grŵp Llywio Allanol y prosiect; ac arbenigwyr eraill yn y diwydiant.

Ni ddatblygwyd yr Hwb i fod yn system ar gyfer rhannu gwybodaeth sensitif am droseddau. Serch hynny, mae'n rhoi'r posibilrwydd i gydweithio ar lein – a rhannu gwybodaeth nad yw'n sensitif – yn ddyddiol. Ar hyn o bryd, mae'r rhinwedd hon yn cael ei defnyddio i helpu datblygu adnoddau i gasglu gwybodaeth a chynnal gwaith ymchwiliol o fewn y prosiect.

Defnyddir yr Hwb ar raddfa ehangach i gydweithio ar faterion penodol, er mwyn i'r rheiny sy'n cymryd rhan fuddsoddi eu hamser yn effeithlon.






## Adnoddau, dulliau a thechnegau gwreiddiol

Bu LIFE SMART Waste yn gweithio gyda rhanddeiliaid a chontractwyr allanol i benderfynu ar wahanol adnoddau, dulliau a thechnegau dadansoddi, a'u datblygu. Bwriad y rhain yw rhoi rheolyddion amgylcheddol mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r pethau hynny sy'n rhoi rhwydd hynt i dor-cyfraith, neu sy'n troi'r farchnad ei hun i fod yn un droseddol. Mae'r rhain wrthi'n cael eu datblygu:


| **Adnodd ymchwilio ariannol** | **Adnodd sganio'r gorwel** | **Adnodd deallusrwydd cystadleuol** |
|---|---|---|
| Mae'r contractwr allanol, Prifysgol Cranfield, wedi rhoi Pecyn Ymchwilio Ariannol at ei gilydd, sy'n helpu i bwyso a mesur y gwahanol ddangosyddion ariannol – gan gynnwys ffynonellau cyllid, lefelau gerio, amrywiadau mewn costau ac incwm – ar gyfer safleoedd sy'n cael eu rheoleiddio. Bwriad yr adnodd hwn yw taflu mwy o oleuni i reolyddion ar y tor-cyfraith allai ddigwydd, neu sy'n debygol o ddigwydd, ymysg gweithredwyr gwastraff sy'n cael eu rheoleiddio.<br><br>Bydd peilot yn dechrau yn hwyr yn yr Haf, 2017. | Mae LIFE SMART Waste yn gweithio gyda Phrifysgol Cranfield a defnyddwyr arbenigol i ddatblygu adnodd i ragfynegi a dadansoddi bygythiadau sy'n dod i'r amlwg (sganio'r gorwel). O'i ddefnyddio yn y diwydiant gwastraff a'r marchnadoedd cysylltiedig, dylai awdurdodau amgylcheddol allu gweld ble allai troseddwyr gwastraff fod yn canolbwyntio eu hymdrechion yn y dyfodol.<br><br>Bydd drafft o'r adnodd ar gael i fwrw golwg drosto, a'i brofi, yn ail hanner 2017. | Mae LIFE SMART Waste yn gweithio gyda'r arbenigwr deallusrwydd cystadleuol (DC), Christophe Bisson, i ddatblygu adnodd DC ar gyfer rheolyddion amgylcheddol. Bwriad yr adnodd hwn yw gweld y cyfleoedd neu'r mannau gwan hynny mewn busnesau neu farchnadoedd gwastraff sy'n rhoi cyfleoedd i droseddwyr elwa.<br><br>Drwy *Adroddiad Ymchwil Bwrdd Gwaith* (mis Rhagfyr 2016), cafwyd cyd-destun i ddatblygu *Adroddiad Fframwaith* arall a fydd yn nodi hyd a lled yr adnodd hwn. Y bwriad yw cyflwyno'r adnodd peilot at fis Medi 2017. |






## Adnoddau, dulliau a thechnegau gwreiddiol (Parhad)

| Archwilio llif gwastraff | Dyfeisiau tracio llif gwastraff | Technegau synhwyro o bell |
|---|---|---|
| Drwy archwilio llif gwastraff, mae posib gweld lle mae colledion wrth symud gwastraff, o'i fan cynhyrchu hyd at ben ei daith. Er mwyn pwyso a mesur y posibilrwydd hwn, aeth LIFE SMART Waste ati i gasglu a dadansoddi data drwy ymweld â gweithredwyr safleoedd gwastraff yn yr Alban. Cynhyrchwyd Adroddiad ar Ddangosyddion Troseddau Gwastraff [*Waste Crime Indicators Report]* ym mis Hydref 2016.<br><br>Bu'r archwilio yn llawer mwy cymhleth a heriol nag a ragwelwyd. Felly, mae peilot arall, sy'n defnyddio dull archwilio llif gwastraff, yn cael ei ystyried o fewn y pecynnau ymchwilio ac ymyrraeth sydd ar y gweill ar gyfer 2017 a 2018. | Mae LIFE SMART Waste wrthi'n ymchwilio i bosibilrwydd defnyddio dyfeisiau tracio, mewn ffyrdd gwreiddiol, i ddilyn symudiad gwahanol fathau o wastraff yn yr Alban a Chymru. Mae sialensiau ymarferol a chyfreithiol yn cael eu hystyried.<br><br>Yn dibynnu ar gyngor cyfreithiol i'r Alban a Chymru, mae gwaith ar adroddiad ymarferoldeb, ac edrych ar gwmpas y prosiect peilot, yn mynd rhagddo efo arbenigwyr o Heddlu'r Alban.<br><br>Rhagwelir y bydd yr astudiaeth dichonoldeb yn cael ei chwblhau erbyn Chwarter 4 2017, cyn rhoi'r peilot ar waith o bosib. | Mae LIFE SMART Waste yn gweithio gyda chontractwyr allanol, Cambrensis ac *Air and Space Evidence*, i ddatblygu, treialu, a gwerthuso technegau synhwyro o bell er mwyn casglu gwybodaeth am weithgareddau ffrydiau gwastraff anghyfreithlon sy'n 'heriol' (fel pentyrru, defnyddio tir a thirlenwi yn anghyfreithlon).<br><br>Ym mis Rhagfyr 2016, dechreuwyd gweithio ar Gam 1 adroddiad ymchwil bwrdd gwaith, i edrych ar ddefnyddio'r technegau hyn i roi sylw i droseddau amgylcheddol a gwastraff. Mae gwaith peilot ar dechnegau a dulliau gwreiddiol ar fin dechrau yn Haf 2017. |









# Ymchwilio a chasglu deallusrwydd

Yn unol â'r *Strategaeth Casglu Deallusrwydd* (cwblhawyd mis Medi 2015), mae LIFE SMART Waste wrthi'n ymchwilio er mwyn llenwi bylchau mewn dealltwriaeth, a chynhyrchu deallusrwydd am droseddau gwastraff.

| **Ymchwiliadau** | **Adroddiadau deallusrwydd** | **Rhwystrau i gydweithio** |
|---|---|---|
| Mae LIFE SMART wedi cwblhau dau becyn ymchwilio, o blith y pedwar sydd ar y gweill.<br><br>Arolwg o farn y diwydiant Gwastraff ar droseddau gwastraff yn yr Alban oedd y cyntaf o'r rhain, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2016. Y bwriad oedd deall natur troseddau gwastraff, a rhoi gwaelodlin o raddfa'r broblem.<br><br>Cynhaliwyd yr ail ymchwiliad ym mis Mehefin 2017. Arolwg dilynol oedd hwn, yn edrych ar berygl tor-cyfraith yn y sector Teiars Gwastraff. | Cafodd y cyntaf, o blith pedwar adroddiad deallusrwydd, ei gwblhau a'i gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2016. Roedd *Adroddiad Deallusrwydd Rhif 1* yn edrych ar ddeallusrwydd gwastraff SEPA a CNC am 2015-16, ac yn nodi'r prif faterion â blaenoriaeth o ran ymyrraeth ac ymchwil mewn perthynas â: *warysau;* a *chludwyr gwastraff.*<br><br>O ganlyniad, bydd y math cyntaf o ymyrraeth ar draws asiantaethau yn rhoi sylw i droseddau gwastraff sy'n digwydd mewn unedau warws sy'n cael eu rhentu'n ddireol.<br><br>Defnyddir pob adroddiad deallusrwydd i gynllunio unrhyw ymyrraeth ar draws asiantaethau yn y dyfodol. | Drwy ymgynghori ag ystod o randdeiliaid allweddol, mae LIFE SMART Waste wedi cyhoeddi dau adroddiad ar yr hyn sy'n rhwystro asiantaethau rhag cydweithio ar ymyraethau i fynd i'r afael â throseddau gwastraff.<br><br>Yn yr adroddiad cyntaf (mis Rhagfyr 2015) , nodir amryw o rwystrau – dyma'r cam cyntaf tuag at eu goresgyn. Mae'r ail adroddiad (mis Awst 2016) yn edrych eto ar y gofynion ar gyfer creu partneriaethau grŵp ymyrraeth effeithiol, ac yn eu pwyso a'u mesur. |










## Ymyraethau ac argymhellion polisi

Bydd LIFE SMART Waste yn defnyddio'r wybodaeth a'r deallusrwydd a gesglir i fynd ati i gynllunio ymyraethau sy'n targedu detholiad o ffrydiau gwastraff bregus. Gyda'r ymyraethau hyn, daw cyfleoedd i dreialu adnoddau ymchwiliol gwreiddiol y prosiect, a'u haddasu. Bydd y rhain yn cyfrannu at gyfres o adroddiadau argymhellion polisi.

| **Llawlyfr Cynllunio Ymyrraeth** | **Ymyraethau traws-asiantaeth** | **Adroddiadau argymhellion polisi** |
|---|---|---|
| Mae LIFE SMART Waste wedi creu Llawlyfr Cynllunio Ymyrraeth *(Intervention Design Manual*) ar gyfer mynd i'r afael â throseddau gwastraff. Drwy ymgynghori â SEPA, CNC a rhanddeiliaid allweddol, cyflwynodd y contractwr allanol, Cambrensis Limited, fersiwn cychwynnol ym mis Ebrill 2016.<br><br>Bwriad y llawlyfr yw rhoi fframwaith i awdurdodau amgylcheddol Ewrop ddewis a chynllunio ymyrraeth, a chytuno ar ymyrraeth gyda phartneriaid.<br><br>Defnyddir y Llawlyfr yn ymyrraeth gyntaf y prosiect yn 2017 i helpu creu pecyn ymyrraeth sy'n unigryw i'r broblem dan sylw. | Mae LIFE SMART Waste yn defnyddio gwybodaeth o'r prosiect i ffurfio grwpiau ymyrraeth traws-asiantaeth, ac adnoddau newydd i greu tri math o ymyrraeth wreiddiol, ar sail deallusrwydd. Bydd y grwpiau ymyrraeth yn datblygu ar y cydweithio sydd eisoes yn digwydd gydag asiantaethau gorfodi a'r diwydiant. Defnyddir dulliau sydd wedi'u datblygu gan sefydliadau megis INTERPOL, Europol ac IMPEL. Rhoddir prawf ar y dull newydd hwn yn yr ymyrraeth gyntaf ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar unedau warws sy'n cael eu rhentu'n ddireol i bwrpasau anghyfreithlon yn ymwneud â gwastraff. Rhagwelir cael y canlyniadau erbyn Haf 2017. | Unwaith y caiff ymyraethau traws-asiantaeth eu cwblhau, bydd LIFE SMART Waste yn llunio tri adroddiad ar argymhellion o ran polisïau ac ymyraethau deddfwriaethol. Bydd yr adroddiadau hyn yn nodi ac yn argymell, yn benodol, ymyraethau a newidiadau i geisio mynd i'r afael â throseddau sy'n ymwneud â ffrydiau gwastraff heriol.<br><br>Caiff yr argymhellion allweddol eu crynhoi mewn papurau briffio i'r UE, i'w rhannu â sefydliadau perthnasol yn Ewrop yn fuan yn 2019. |








## Gwneud cyswllt a rhannu

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio, buddsoddwyd cryn dipyn o amser mewn gwneud cyswllt â rhanddeiliaid allweddol, a rhannu gwybodaeth efo nhw.

Mae LIFE SMART Waste wedi ceisio cyrraedd **asiantaethau gorfodi a chynrychiolwyr y diwydiant yn yr UE** i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect, a'u hannog i gyfrannu. Mae'r prosiect wedi llwyddo i gyrraedd asiantaethau gorfodi amgylcheddol, ac eraill, gan gynnwys awdurdodau yr heddlu, tollau ac ariannol – wrth bennu a datblygu cynnyrch deallusrwydd, adnoddau ymchwiliol, a chynllunio ymyraethau. Bu LIFE SMART Waste hefyd yn gwneud cyswllt â rhwydweithiau a chyrff proffesiynol allweddol – gan gynnwys IMPEL a CIWM – ac yn gwneud cysylltiad ag ystod o brosiectau sy'n rhoi sylw i droseddau gwastraff yn Ewrop a thu hwnt, gan gynnwys, EFFACE; TECUM; BlockWaste; DOTCOM Waste; a LIFE-ENPE.

Dechreuwyd gwneud cyswllt â **rhanddeiliaid sy'n llunio polisïau a deddfu** yn fuan yn y prosiect, a daw hyn yn bwysicach fyth wrth i'r prosiect gyflwyno ei ganfyddiadau a cheisio dylanwadu ar bolisïau a newidiadau deddfwriaethol yn Ewrop. Mae gwneud cyswllt yn waith parhaus a, hyd yma, canolbwyntiwyd ar wneud cyswllt gyda chynrychiolwyr: llywodraethau datganoledig y DU; adrannau anweinidogol llywodraethau'r DU a'r Alban (CThEM a Chyllid yr Alban); a Chyfarwyddwr Cyffredinol Amgylchedd (Llywodraethu) y Comisiwn Ewropeaidd. Rhoddwyd diweddariad ar y prosiect gyda rhwydwaith rhyngwladol llywodraethau lleol a rhanbarthol ACR+.

Bu LIFE SMART Waste yn rhannu newyddion am y prosiect gyda **rhanddeiliaid allweddol** mewn digwyddiadau, a gan ddefnyddio'r cyfryngau digidol. Crëwyd gwefan i gyfuno gwybodaeth gefndirol, newyddion a chyhoeddiadau am y prosiect (pamffledi, adroddiadau a gwybodaeth ategol). Defnyddir ambell gyfrwng cymdeithasol (Twitter, Facebook a LinkedIn) i rannu newyddion a chaiff e-gylchlythyr ei gyhoeddi i gronfa ddata gynyddol o grwpiau sy'n ymddiddori ledled Ewrop a thu hwnt.

### Darllenwch fwy

- Ar y we — www.lifesmartwaste.com
- E-gylchlythyr — Ffurflen gofrestru

### Cysylltwch i gymryd rhan

E-bost — lifesmartwaste@sepa.org.uk